



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan  
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Daniel - Council Business Unit, Democratic Services (01443 424110)

Bydd rhithwir cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 4YDD CHWEFROR, 2021** am **2.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO [GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK](mailto:GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK) ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 2 CHWEFROR 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGANIAD BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## **2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## **3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## **4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2020.

5 - 10

## **CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

### **5. CAIS RHIF: 18/1105/10**

Trosi Capel yn 5 fflat preswyl gyda gwaith cysylltiedig (derbyniwyd cynllun lleoliad diwygiedig a chynllun parcio 22/08/2019).  
**Capel Ebenezer, Stryd Ebenezer, Trecynon, Aberdâr, CF44 8NU.**

11 - 22

### **6. CAIS RHIF: 20/0822/10**

Estyniadau dormer blaen a chefn arfaethedig (derbyniwyd cynlluniau a disgrifiad diwygiedig 29/10/20).  
**7 Heol Coed Isaf, Maes-y-coed, Pontypridd, CF37 1EL.**

23 - 28

### **7. CAIS RHIF: 20/1204/10**

Adeiladu estyniad ochr deulawr, estyniad cefn unllawr, trosi'r llofft yn llofft dormer, ailadeiladu garej ar wahân a chreu llawr caled newydd wrth ochr yr eiddo. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig 13/12/2020).  
**97 Stryd Meyler, Thomastown, Tonyrefail, Porth, CF39 8DY.**

29 - 36

**8. CAIS RHIF: 20/1219/10**

Adeiladu dwy uned ddiwydiannol (B2) a warws (B8) y mae modd eu cyfuno'n un uned, gyda swyddfeydd ategol (B1), maes parcio cysylltiedig ar gyfer ceir a beiciau, a chreu iard mynediad a gwasanaeth newydd.

**Plot A, Tir ger Dolydd Felindre, Llanharan, Pencoed, CF35 5HY.**

**37 - 52**

**9. CAIS RHIF: 20/1352**

Adeiladu pont droed teithio llesol.

**A4119, Coed-elái, Tonyrefail.**

**53 - 62**

**10. CAIS RHIF: 20/1375/10**

Datblygiad Preswyl Arfaethedig a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd Adroddiad Ymchwiliad Safle 7 Rhagfyr 2020 a derbyniwyd cynllun wedi'i ddiweddarau 18 Ionawr 2021).

**Tir ger Ystad Ddiwydiannol Abergorchwy, Ynyswen, Treherbert, CF42 6DL.**

**63 - 80**

**CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

**11. CAIS RHIF: 20/1213/10**

Cadw a chwblhau bloc garej (ailgyflwyno cais 20/0091/10)

**Tir ger Stryd James, Cwmdâr, Aberdâr.**

**81 - 92**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**12. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 01/2021 – 22/01/2021.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.

Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.

**93 - 108**

**13. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

## **Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

### **Cylchrediad:-**

#### **Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu  
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,  
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd W Owen,  
Y Cynghorydd R Yeo, Y Cynghorydd D Williams ac Y Cynghorydd S Powderhill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu  
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi  
Pennaeth Cynllunio  
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol  
Uwch Beiriannydd